# Omnibws y Plant, 2023

## Mynychu a Chyfranogi Cyffredinol o’r Celfyddydau unwaith y flwyddyn neu’n amlach

# Cynnwys


[Cyflwyniad](#) 4
- Cefndir 4
- Methodoleg 4
  - Cyfweliadau 4
  - Cyflwyno'r data 5
  - Mynychu fesul celfyddyd 5
  - Cyfranogi fesul celfyddyd 6
- Crynodeb 7
  - Mynychu 7
  - Trosolwg ar fynychu'r celfyddydau yn ôl celfyddyd dros y tair blynedd diwethaf 8
  - Sut a phryd mae mynychu gweithgarwch? 9
  - Cyfranogi 10
  - Trosolwg ar gyfranogi o'r celfyddydau yn ôl celfyddyd dros y tair blynedd diwethaf 11
  - Sut a phryd mae cyfranogi o'r gweithgarwch celfyddydol? 12

Dosbarth cymdeithasol: mynychu 13
Dosbarth cymdeithasol: cyfranogi 13
Rhyw: mynychu 14
Rhyw: cyfranogi 14
Oedran: mynychu 15
Oedran: cyfranogi 17
Mynychu yn ôl rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru 19
Cyfranogi yn ôl rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru 20
Mynychu yn ôl gallu yn y Gymraeg 22
Cyfranogi yn ôl gallu yn y Gymraeg 25
Atodiad 1: diffiniadau o ddosbarth cymdeithasol 27
Atodiad 2: rhanbarthau 28
Atodiad 3: cwestiynau Arolwg 2023 29

# Cyflwyniad

## Cefndir

Ers 2007, mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn cynnal arolwg blynyddol o fynychu a chyfranogi ymhlith plant a phobl ifanc. Cesglir gwybodaeth bob blwyddyn am fynychu digwyddiadau celfyddydol a chyfranogi o weithgarwch artistig drwy gyfres o gwestiynau sydd yn Arolwg Omnibws y Plant gan Ymchwil Beaufort. Mae copi o'r holiadur i gasglu'r wybodaeth ar ddiwedd yr adroddiad.

Mae'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau arolwg 2023, gan archwilio lefelau cyffredinol mynychu plant a phobl ifanc y celfyddydau a chyfranogi ohonynt. Archwilir amrywiadau demograffig a rhanbarthol, darperir cymhariaeth o gelfyddydau a thueddiadau celfyddydau unigol mewn adroddiadau atodol 'Omnibws y Plant, 2023: mynychu plant yn y celfyddydau unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl celfyddyd' ac 'Omnibws y Plant, 2023: cyfranogi plant o'r celfyddydau unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl celfyddyd'.

## Methodoleg

### Cyfweliadau

Mae Arolwg Omnibws y Plant gan Ymchwil Beaufort yn cael ei gynnal ddwywaith y flwyddyn yn y gwanwyn a'r hydref gyda chyfweliadau â thua 500 o blant a phobl ifanc rhwng 7 a 18 oed. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn noddi modiwlau o gwestiynau yn holiaduron Ebrill a Hydref. Mae pob blwyddyn o ddata a drafodir yn yr adroddiad yn cyfuno setiau data Ebrill a Hydref, sy'n cynrychioli maint sampl blynyddol cyfunol o ryw 1,000 cyfweliad. Er mwyn sicrhau sampl gynrychioliadol o blant 7 i 18 oed ledled Cymru, gosodir cwotâu ar y cyfweliadau yn ôl rhanbarth, oedran, rhyw a'r gallu yn y Gymraeg, sy'n adlewyrchu cyfrannau Cyfrifiad 2011. Mae'r data wedyn yn cael ei bwysoli i gywiro unrhyw anghydbwysedd bach yn y sampl, gan sicrhau ei fod yn gynrychioliadol o boblogaeth Cymru rhwng 7 a 18 oed.

Roedd oedi yn y casglu data yma yn ystod y pandemig. O ganlyniad mae'r adroddiad yma'n cymharu canlyniadau 2023 â'r canlyniadau cyn y pandemig yn 2019. Cyn 2023, cynhaliwyd cyfweliadau wyneb yn wyneb yng nghartrefi ymatebwyr. Ond yn sgil y pandemig, cynhaliwyd cyfweliadau ar-lein a rhai i'w llenwi gan y cyfranogwyr sy'n defnyddio platfform cyfnewid ar-lein, Cint. Cynhaliwyd yr holl waith maes yn unol â Chod Ymddygiad Cymdeithas Ymchwil i'r Farchnad a Chanllawiau Cynnal Ymchwil gyda Phlant a Phobl Ifanc.

Cynhaliwyd 807 cyfweliad mewn dau gyfnod o waith maes ym Mawrth-Ebrill 2023 a Hydref 2023.

## Cyflwyno data

Cyflwynir y data mewn cyfres o siartiau llinell a bar sy'n dangos canran y plant a'r bobl ifanc sydd wedi mynychu neu gyfranogi o bob gweithgarwch y gofynnir amdano yn yr arolwg. Mae'r canlyniadau wedi'u rhannu yn ôl grwpiau demograffig allweddol a rhanbarth. Pan gyflwynir amlder mynychu a chyfranogi, mae'n cyfeirio at gyfradd o unwaith y flwyddyn neu'n amlach. Gellir dod o hyd i ddiffiniadau o ranbarthau a dosbarth cymdeithasol yn Atodiadau 1 a 2 ar ddiwedd yr adroddiad.

## Mynychu yn ôl celfyddyd

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa mor aml y maent yn mynychu pob un o'r naw celfyddyd ganlynol:

- Dramâu
- Sioeau cerdd
- Cerddoriaeth glasurol
- Opera
- Cerddoriaeth fyw arall
- Perfformiadau dawns
- Orielau neu arddangosfeydd celf neu grefft
- Darlleniadau, storïau a digwyddiadau llenyddol eraill
- Carnifalau a chelfyddydau’r stryd*

*ychwanegwyd y gelfyddyd yn 2010

Mae mynychu digwyddiadau celfyddydol yn crynhoi mynychu’n gyffredinol ddigwyddiadau celfyddydol a fesurir drwy fynychu unrhyw gelfyddyd. Bydd amrywiadau demograffig a rhanbarthol o ran mynychu cyffredinol yn cael eu harchwilio i ddeall pa blant a phobl ifanc sy'n fwy tebygol o fynychu'r celfyddydau yng Nghymru unwaith y flwyddyn neu’n amlach.

Wrth ystyried y ffigurau mynychu cyffredinol, dylid nodi bod carnifalau a chelfyddydau’r stryd wedi'u hychwanegu at y rhestr o gelfyddydau yn 2010. Felly, bydd mynychu cyffredinol y celfyddydau yn cael ei archwilio yn seiliedig ar fynychu yn unrhyw un o'r wyth celfyddyd dros y deng mlynedd diwethaf, ond hefyd yn seiliedig ar bob un o'r naw celfyddyd dros y chwe blynedd diwethaf. Wrth archwilio tueddiadau demograffig, bydd cymariaethau yn seiliedig ar y naw celfyddyd lawn dros y tair blynedd diwethaf.

## Cyfranogi yn ôl celfyddyd

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa mor aml yr oeddent yn cyfranogi o bob gweithgarwch canlynol:


- Gweithgarwch cerddorol
- Drama neu weithgarwch theatrig
- Gweithgarwch dawns
- Ffilm a fideo neu ffotograffiaeth
- Celf a chrefft weledol
- Celfyddydau digidol
- Ysgrifennu creadigol

Mae cyfranogi o ddigwyddiadau celfyddydol yn crynhoi cyfranogi cyffredinol unwaith y flwyddyn neu’n amlach a fesurir gan, ymhlith ffactorau eraill, grŵp demograffig, rhanbarth a gallu yn y Gymraeg.

Dylid nodi, hyd at 2009, fod yr arolwg yn gofyn am 'gelfyddydau'r cyfryngau' yn hytrach na 'chelfyddydau digidol' a gyflwynwyd yn 2010. Maent wrth gwrs yn fras yr un peth ond diffiniwyd celfyddydau cyfryngau fel dylunio gwefannau a gweithio gyda'ch cyfrifiadur a chelfyddydau digidol yn gliriach fel a ganlyn: ‘creu a gwneud y celfyddydau gan ddefnyddio technoleg ddigidol fel uwchlwytho, creu neu ailgymysgu cynnwys sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau (fel ar Youtube, Flickr)’.

## Crynodeb

### Mynychu





Yn 2023, roedd 82% o blant a phobl ifanc yn mynychu o leiaf un o'r 9 celfyddyd o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae hyn yn ostyngiad o 4.7 pwynt canran o'i gymharu â 2019.

Ffigur 1. Canran y plant a'r bobl ifanc sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach (9 celfyddyd)

Heb gynnwys digwyddiadau carnifal a stryd, gostyngodd nifer y bobl oedd yn mynychu yn 2023 gan 4.2 pwynt canran o'i gymharu â 2019, gyda 76.7% o blant a phobl ifanc yn mynychu un o'r 8 celfyddyd gyson o leiaf unwaith y flwyddyn.


Mae'r canlyniadau'n awgrymu gostyngiad cyffredinol mewn mynychu ymhlith plant a phobl ifanc ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru ers 2023.




Ffigur 2. Canran y plant a'r bobl ifanc sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach (8 celfyddyd gyson)

## Trosolwg ar fynychu'r celfyddydau yn ôl celfyddyd dros y tair blynedd diwethaf


- Ar ôl gostyngiad bach yn 2019, mae mynychu carnifalau a chelfyddydau'r stryd wedi cynyddu 1.4 pwynt canran i 55.2% yn 2023. Ar y cyfan, dyma'r gelfyddyd a fynychir fwyaf ymhlith plant a phobl ifanc ers 2018
- Drama yw'r ail gelfyddyd a fynychwyd fwyaf. Mae wedi gweld cynnydd yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n mynychu o leiaf unwaith y flwyddyn
- Mae mynychu orielau neu arddangosfeydd celf / crefft wedi cynyddu gan 1.8 pwynt canran, gyda 43.2% o blant a phobl ifanc yn mynychu yn 2023
- Mae mynychu sioeau cerdd wedi cynyddu'n sylweddol, gyda 40.9% o blant a phobl ifanc yn mynychu yn 2023. Mae hyn yn gynnydd o 11.5 pwynt canran ers 2019
- Mae mynychu digwyddiadau cerddoriaeth glasurol yn parhau i gynyddu yn 2023. Roedd 9.9% o blant a phobl ifanc yn mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach, cynnydd o 2.9 pwynt canran
- Mae mynychu opera wedi cynyddu'n sylweddol i 7.9%, er mai dyma'r gelfyddyd a fynychwyd leiaf gan blant a phobl ifanc o hyd
- Mae pob digwyddiad cerddoriaeth fyw arall yn dangos cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n mynychu, gyda 47.9% o blant a phobl ifanc yn mynychu yn 2023 (gostyngiad o 12.1 pwynt canran). Dyma'r cynnydd mwyaf mewn mynychu yn 2023 ar draws pob celfyddyd
- Gwelwyd cynnydd dibwys yn nifer y bobl a oedd yn mynychu digwyddiadau llenyddol, gyda 29.5% o blant a phobl ifanc yn mynychu yn 2023. Y cynnydd o 0.1 pwynt canran yw'r cynnydd lleiaf mewn mynychu ymhlith yr holl gelfyddydau yn 2023




Ffigur 3. Canran y plant a'r bobl ifanc sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl celfyddyd

- Mae nifer y bobl sy'n mynychu digwyddiadau dawns wedi cynyddu, gyda 26.8% o blant a phobl ifanc yn mynychu yn 2023

Nid yw cyfanswm y ffigurau yn 100% gan mai'r sampl yw o blant a phobl ifanc a allai fod wedi mynychu mwy nag un gelfyddyd mewn mwy nag un ffordd.




## Sut a phryd mae mynychu gweithgarwch?

Mae canran y plant a'r bobl ifanc nad ydynt yn mynychu unrhyw ddigwyddiadau artistig wedi cynyddu gan 4.7 pwynt canran, gyda 18.1% nad ydynt yn mynychu digwyddiadau yn 2023.

Mae nifer y digwyddiadau a fynychwyd gan ysgolion/colegau yn ystod amser ysgol wedi gostwng o 49.6% yn 2019 i 44.8% yn 2023.


Ar y llaw arall, mae nifer y digwyddiadau a fynychwyd gan ysgolion/colegau y tu allan i amser ysgol wedi cynyddu'n sylweddol i 20.3% yn 2023.

Mae'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau artistig yn parhau i gael eu mynychu yn amser y plant a'r bobl ifanc eu hunain. Ond fel yn achos y blynyddoedd blaenorol, mae'r nifer wedi gostwng ymhellach gan 2.3 pwynt canran yn 2023 i 70%.

Ffigur 4. Canran y plant a'r bobl ifanc sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol (canran o'r holl blant a phobl ifanc)

Nid cyfanswm y ffigurau yma yw 100% gan mai'r sampl yw o blant a phobl ifanc a allai fod wedi mynychu mwy nag un gelfyddyd mewn mwy nag un ffordd.


Cyfranogi




Ffigur 5. Canran y plant a'r bobl ifanc sy'n cyfranogi o weithgarwch celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach (7 celfyddyd gyson)

Mae cyfranogi o weithgarwch artistig yn parhau i ostwng, gan gyrraedd lefelau tebyg i 2013. Cymerodd 84.1% o blant a phobl ifanc ran mewn o leiaf un o'r 7 celfyddyd unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn 2023.

## Trosolwg ar gyfranogi o’r celfyddydau yn ôl celfyddyd dros y tair blynedd diwethaf




Ffigur 6. Canran y plant a'r bobl ifanc sy'n cyfranogi o weithgarwch celfyddydol unwaith neu’n amlach y flwyddyn yn ôl celfyddyd

Mae cyfranogi o gelfyddyd a chrefft weledol wedi amrywio yn ystod y tair blynedd diwethaf, ond yn 2023 dyma'r gelfyddyd gyda'r ganran uchaf o gyfranogi ymhlith plant a phobl ifanc, sef 62.8%, cynnydd o 3.7 pwynt canran ers 2019.

Mae cyfranogi o ysgrifennu creadigol yn parhau i ostwng, 1.9 pwynt canran i 58.9% eleni. O ganlyniad, mae’r gelfyddyd wedi gostwng ac nid yw bellach yr un gyda'r cyfranogi uchaf.


Mae cyfranogi o weithgarwch cerddorol, celfyddydau digidol a dawns ar gyfer 2023 wedi cynyddu'n sylweddol o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, sef 56.9%, 53.1%, a 39.4%, yn ôl y blynyddoedd. Nid dawns bellach yw'r gelfyddyd gyda'r cyfranogi isaf.

Mae cyfranogi o weithgarwch drama a theatr wedi cynyddu'n sylweddol oddi ar 2019, gyda 45.5% o blant a phobl ifanc yn cyfranogi yn 2023.

Mae cyfranogi o ffilm, fideo a ffotograffiaeth wedi aros yn sefydlog, gyda 38% o blant a phobl ifanc yn cyfranogi o leiaf unwaith y flwyddyn yn 2023. Ond erbyn hyn dyma'r gelfyddyd gyda'r cyfranogi isaf.

Nid cyfanswm y ffigurau yma’n 100% gan mai’r sampl yw o blant a phobl ifanc a allai fod wedi mynychu mwy nag un gelfyddyd mewn mwy nag un ffordd.

## Sut a phryd mae cyfranogi o’r celfyddydau?




Ffigur 7. Canran y plant a'r bobl ifanc sy'n cyfranogi o weithgarwch celfyddydol yn ôl lleoliad

Mae canra n y plant a'r bobl ifanc nad ydynt yn cyfranogi o unrhyw weithgarwch artistig yn parhau i godi, gyda 16.5% nad ydynt yn cyfranogi o unrhyw gelfyddydau yn 2023.


Yn wahanol i fynychu, mae cyfranogi o weithgarwch artistig yn digwydd yn bennaf yn ystod amser ysgol. Ond mae hyn wedi gostwng gan 5 pwynt canran oddi ar 2019, gyda 67.1% o blant a phobl ifanc yn cyfranogi yn ystod amser ysgol yn 2023.

Mae cyfranogi o weithgarwch a drefnir gan ysgolion y tu allan i oriau ysgol wedi cynyddu'n sylweddol i 16.5%, cynnydd o 8.6 pwynt canran.

Mae cyfranogi plant a phobl ifanc yn eu hamser ei hunain wedi cynyddu ychydig, gyda 49.4% yn cyfranogi yn 2023.

Nid cyfanswm y ffigurau yma’n 100% gan mai’r sampl yw o blant a phobl ifanc a allai fod wedi mynychu mwy nag un gelfyddyd mewn mwy nag un ffordd.

## Dosbarth cymdeithasol: mynychu




Ffigur 7. Canran y plant a'r bobl ifanc sy'n mynychu unrhyw ddigwyddiadau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl dosbarth cymdeithasol

Mae plant a phobl ifanc o ddosbarth cymdeithasol uwch yn parhau i fynychu digwyddiadau artistig yn amlach (83.6% ar gyfer ABC1au ac 80.5% gyda C2DEau). Ond mae mynychu yn parhau i ostwng i'r ddau grŵp, gyda mynychu ABC1 i lawr 6.6 pwynt canran a mynychu C2DEau i lawr 2.9 pwynt canran.


Mae'r gwahaniaeth mewn mynychu rhwng aelwydydd ABC1 a C2DE wedi lleihau i 3.1 pwynt canran yn 2023.

## Dosbarth cymdeithasol: cyfranogi

Mae plant a phobl ifanc o aelwydydd ABC1 yn parhau i fod yn fwy tebygol o gyfranogi o weithgarwch artistig na'r rhai o aelwydydd C2DE (87.5% o ABC1au o'i gymharu ag 80.8% o C2DEau).


Mae'r cyfranogi cyffredinol mewn aelwydydd ABC1 yn parhau i aros heb newid oddi ar 2019. Ond mae cyfranogi ymhlith aelwydydd C2DE wedi gostwng gan 3.9 pwynt canran yn 2023.

Mae'r gwahaniaeth rhwng y ddau grŵp dosbarth cymdeithasol wedi cynyddu o 2.8 pwynt canran yn 2019 i 6.7 pwynt canran yn 2023.




Ffigur 8. Canran y plant a'r bobl ifanc sy'n cyfranogi o unrhyw weithgarwch artistig unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl dosbarth cymdeithasol

## Rhyw: mynychu




Ffigur 9. Canran y plant a'r bobl ifanc sy'n mynychu unrhyw ddigwyddiadau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl rhyw

Mae mynychu digwyddiadau celfyddydol yn parhau i fod yn uwch ymhlith merched (89.3%) na bechgyn (75.4%) yn 2023. Ond mae mynychu'r ddau grŵp yn parhau i ostwng yn 2023, 7.5 pwynt canran ar gyfer bechgyn a 1.4 pwynt canran i ferched.


Mae'r gwahaniaeth mewn mynychu rhwng y rhywiau wedi cynyddu'n sylweddol, gan godi o 6.3 pwynt canran yn 2019 i 13.4 pwynt canran yn 2023.

## Rhyw: cyfranogi

Mae lefelau cyfranogi hefyd yn parhau i fod yn uwch ymhlith merched (88.9%) na bechgyn (79.7%).


Roedd cynnydd o 1.7 pwynt canran i 88.9% mewn cyfranogi ymhlith merched. Gostyngodd cyfranogi ymhlith bechgyn gan 5.4 pwynt canran i 79.7%

Cynyddodd y gwahaniaeth mewn cyfranogi rhwng merched a bechgyn, o 2.1 pwynt canran yn 2019 i 9.2 pwynt canran yn 2023.




Ffigur 10. Canran y plant a'r bobl ifanc sy'n cyfranogi o unrhyw weithgarwch celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl rhyw

## Oedran: mynychu





Ffigur 11. Canran y plant a'r bobl ifanc sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol yn ôl grŵp oedran

Mae mynychu plant 7-10 oed wedi gostwng gan 6.3 pwynt canran i 86.3%, gan barhau â thuedd y blynyddoedd blaenorol. Ond dyma'r mynychu cryfaf o hyd ymhlith pob grŵp oedran.

Mae mynychu ymhlith pobl ifanc 11-15 oed hefyd yn parhau i ostwng, y tro yma gan 3.7 pwynt canran.

Mae'r mynychu isaf i'w gweld o hyd ymhlith pobl ifanc 16-18 oed. Ond mae'r nifer sy'n mynychu yn y grŵp yma wedi cynyddu gan 1.2 pwynt canran, gyda 75.1% yn mynychu digwyddiadau artistig o leiaf unwaith y flwyddyn.

Mae cyfartaledd mynychu ymysg pob grŵp oedran wedi gostwng yn 2023 i 82%, gostyngiad o 4.7 pwynt canran.




Ffigur 12. Cymhariaeth o fynychu'r celfyddydau yn ôl oedran a grŵp blwyddyn ysgol (canran y plant a'r bobl ifanc sy'n mynychu celfyddyd unwaith y flwyddyn neu'n amlach)

Mae mynychu bron yr un fath rhwng plant 7-10 oed a blynyddoedd 2-6, gydag 86.3% i'r cyntaf ac 86.6% i'r ail yn mynychu digwyddiadau artistig o leiaf unwaith y flwyddyn. Dim ond gwahaniaeth o 0.4 pwynt canran sydd rhwng y ddau grŵp. Yn 2019 y gwahaniaeth rhwng plant 7-10 oed a blwyddyn 2-6 oedd 2.8 pwynt canran.


Mae mynychu hefyd yn weddol agos rhwng pobl ifanc 11-15 oed (82.7%) a blynyddoedd 7-11 (80.6%). Mae'r gwahaniaeth rhwng pobl ifanc 11-15 oed a blynyddoedd 7-11 wedi lleihau. Yn 2019 roedd yn 4.1 pwynt canran ond yn 2023 mae wedi gostwng i 1.2 pwynt canran.

Mae mynychu blynyddoedd 12-13 wedi gostwng yn sylweddol gan 16.6 pwynt canran o 95.4% yn 2019 i 78.8% yn 2023. Ar y llaw arall, mae mynychu ymhlith pobl ifanc 16-18 oed wedi cynyddu ychydig gan 1.2 pwynt canran. Nid yw'r rheswm dros yr anghysondeb yn hysbys. Mae nifer y bobl nad ydynt yn yr ysgol wedi lleihau hefyd (o 80.9% yn 2019 i 76.7% yn 2023).

Mae gan blant y blynyddoedd 12-13 a'r rhai 16-18 oed y mynychu isaf ymhlith grwpiau blwyddyn ysgol a grwpiau oedran.

Mae gan blant blynyddoedd 2-6 a 7-10 y mynychu uchaf yn eu grwpiau. Mae mynychu cyffredinol wedi gostwng o 86.7% i 82%.

## Oedran: cyfranogi





Ffigur 13. Canran y plant a'r bobl ifanc sy'n cyfranogi o unrhyw weithgarwch celfyddydol unwaith y flwyddyn neu’n amlach yn ôl oedran

Yn debyg i fynychu, mae’r cyfranogi uchaf ymhlith plant 7-10 oed gyda 92.4% ohonynt yn cyfranogi o weithgarwch artistig o leiaf unwaith y flwyddyn. Ond mae cyfranogi yn y grŵp oedran wedi gostwng unwaith eto, y tro yma gan 3.6 pwynt canran i 92.4%.

Fel gyda mynychu, mae cyfranogi ymhlith pobl ifanc 11-15 oed wedi gostwng gan 3.7 pwynt canran i 88.9%.

Er bod eu mynychu wedi cynyddu ychydig iawn, mae cyfranogi ymhlith pobl ifanc 16-18 oed yn sylweddol uwch, gyda chynnydd o 7.5 pwynt canran i 64.8%. Ond nhw yw'r grŵp oedran lleiaf tebygol o gyfranogi o weithgarwch artistig o leiaf unwaith y flwyddyn, 19.3 pwynt canran yn is na'r cyfartaledd cyfranogi.





Mae cyfranogi yn aros bron yr un fath rhwng plant 7-10 oed a blynyddoedd 2-6, 92.4% a 92.5% ohonynt yn cyfranogi o gelfyddyd o leiaf unwaith y flwyddyn.

Mae plant 11-15 oed a blynyddoedd 7-11 hefyd yn cyfranogi o weithgarwch artistig yn debyg iawn (88.9% ac 86%).

Yn wahanol i'r cynnydd bychan mewn mynychu, mae cyfranogi ymhlith pobl ifanc 16-18 oed wedi cynyddu'n gymedrol gan 7.5 pwynt canran i 64.8%. Ar y llaw arall, mae cyfranogi ymhlith blynyddoedd 12-13 wedi gostwng gan 6.7 pwynt canran i 67.6%.

Mae lefelau cyfranogi ymhlith pobl ifanc nad ydynt yn mynychu'r ysgol wedi cynyddu'n sylweddol i 76.1%, ac mae bellach yn uwch na chyfranogi ymhlith pobl ifanc 16 i 18 oed sydd yn yr ysgol o hyd.

## Mynychu yn ôl rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru




Ffigur 15. Canran y plant a'r bobl ifanc sy'n mynychu unrhyw ddigwyddiadau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru


Mae mynychu yn y Gogledd wedi gostwng yn sylweddol, o 92.2% yn 2019 i 82.2% yn 2023, sef 10%. Dyma'r gostyngiad mwyaf mewn mynychu ar draws ein rhanbarthau yn 2023. Erbyn hyn ar draws pob rhanbarth, y Gogledd sydd â'r mynychu isaf ond un.

Mae mynychu yn y De-orllewin yn parhau i ostwng, gyda gostyngiad o 4.2 pwynt canran i 84.6% ymhlith plant a phobl ifanc.

Mae mynychu yn rhanbarth Canol y De wedi gostwng eto, gan aros yn is na'r cyfartaledd yn 2023 (82%).

Yn wahanol i 2019, mae mynychu yn y De-ddwyrain wedi cynyddu'n sylweddol gan 7 pwynt canran i 87.5%. Erbyn hyn dyma'r rhanbarth sydd â'r mynychu uchaf.

## Cyfranogi yn ôl rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru




Ffigur 16. Canran y plant a'r bobl ifanc sy'n cyfranogi o unrhyw weithgarwch celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru


Mae cyfranogi plant a phobl ifanc o weithgarwch artistig wedi cynyddu ar draws pob rhanbarth ond un, ac mae cyfranogi'n debyg rhwng y Gogledd, y De-orllewin a'r De-ddwyrain, sef 87.7%, 86.7% ac 86.9%.

Profodd y tri rhanbarth gynnydd mewn cyfranogi yn 2023, o'i gymharu â 2019: un pwynt canran ar gyfer y Gogledd, 0.3 pwynt canran ar gyfer y De-ddwyrain a 0.9 pwynt canran ar gyfer Canol y De.

Yng Nghanol y De, mae cyfranogi ymhlith plant a phobl ifanc yn y celfyddydau wedi gostwng gan 7.3 pwynt canran i 78.8%. Dyma'r unig ranbarth i brofi dirywiad. Ar ben hynny, Canol y De yw'r unig ranbarth sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer cyfranogi.

Gwelir lefelau cyfranogi yn 2023 ar y map isod.

## Mynychu yn ôl gallu yn y Gymraeg





amlach yn ôl gallu yn y Gymraeg

Mae mynychu plant a phobl ifanc yn parhau i fod yn uwch ymhlith y rhai sy'n siarad Cymraeg (86.3%) na'r rhai di-Gymraeg (73.9%).

Fel yn 2019, gwelir gostyngiad yn nifer y bobl sy'n mynychu yn y ddau grŵp. I siaradwyr Cymraeg, mae gostyngiad cymedrol o 6.4 pwynt canran. I'r di-Gymraeg, mae'r gostyngiad yn fwy sylweddol, 9.1 pwynt canran. Mae'r di-Gymraeg bellach yn disgyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer mynychu.

Mae'r gwahaniaeth mewn mynychu rhwng y ddau grŵp hefyd wedi ehangu'n sylweddol, o 9.7 pwynt canran yn 2019 i 12.4% pwynt canran yn 2023.





Ffigur 18. Canran y plant a'r bobl ifanc sy'n mynychu unrhyw gelfyddyd unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl lefel rhuglder yn y Gymraeg

Mae dadansoddi gallu yn y Gymraeg yn ôl rhuglder yn dangos mynychu cyson rhwng y ddau grŵp ond ychydig yn uwch ymhlith rhai rhugl. Mae mynychu wedi gostwng ar gyfer siaradwyr Cymraeg rhugl (87.1%) a siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl (86%) yn 2023, 6.2 pwynt canran a 7.7 pwynt canran.

Mae'r gwahaniaeth rhwng mynychu siaradwyr rhugl ac nad ydynt yn rhugl wedi gostwng ychydig rhwng 2019 a 2023, o 1.5 pwynt canran i 1.1 pwynt canran.

## Cyfranogi yn ôl gallu yn y Gymraeg





Ffigur 19. Canran y plant a'r bobl ifanc sy'n cyfranogi o unrhyw gelfyddyd unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl gallu yn y Gymraeg

Yn yr un modd â mynychu, mae cyfranogi ar ei uchaf ymhlith plant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg, gyda 87.3% yn cyfranogi o unrhyw gelfyddyd o leiaf unwaith y flwyddyn. Ond mae hyn yn ostyngiad o 3.8 pwynt canran ers 2019.

Mae cyfranogi gan bobl ddi-Gymraeg yn parhau i fod yn is na'r cyfartaledd ac mae'n parhau i ostwng, gyda 77.1% yn cyfranogi o weithgarwch artistig unwaith y flwyddyn neu'n amlach.

Mae'r gwahaniaeth mewn mynychu rhwng plant a phobl ifanc sy'n medru Cymraeg a'r rhai nad ydynt wedi cynyddu ymhellach, o 8 pwynt canran yn 2019 i 10.2 pwynt canran yn 2023.




Ffigur 20. Canran y plant a'r bobl ifanc sy'n cyfranogi o unrhyw weithgarwch celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl rhuglder yn y Gymraeg

Mae'r duedd o weld cyfranogi uwch o weithgarwch celfyddydol ymhlith plant a phobl ifanc sy'n rhugl yn y Gymraeg yn ailymddangos, yn wahanol i'r hyn a ddigwyddodd yn 2019. Yn fwy penodol, mae cyfranogi ymhlith siaradwyr Cymraeg rhugl wedi cynyddu gan 4.9 pwynt canran i 90% yn 2023. Ar y llaw arall, mae nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg heb fod yn rhugl wedi gostwng gan 7.1 pwynt canran i 87% yn 2023.

Ond mae'r gwahaniaeth yn y lefelau cyfranogi rhwng y rhai sy'n rhugl a'r rhai nad ydynt yn rhugl wedi gostwng i 3 phwynt canran.

Mae hyn yn debyg i'r mynychu uwch ymhlith siaradwyr Cymraeg rhugl o gymharu â siaradwyr nad ydynt yn rhugl.

# Atodiad 1: diffiniadau o ddosbarth cymdeithasol

Gellir rhannu'r boblogaeth yn chwe grŵp economaidd-gymdeithasol neu ddosbarth cymdeithasol, sy'n seiliedig ar alwedigaeth y Prif Enillydd Incwm ar yr aelwyd. Bydd gan bawb yn yr aelwyd yr un radd gymdeithasol â'r Prif Enillydd Incwm. Er mwyn helpu i'w dadansoddi, mae'r tair gradd gyntaf a'r tair gradd olaf yn aml yn cael eu grwpio gyda'i gilydd i ABC1au a C2DEau sy'n cael eu hystyried yn cyfateb i'r 'Dosbarth Canol' a'r 'Dosbarth Gweithio':

**ABC1au** – galwedigaethau proffesiynol, cymwys ac nid â llaw

- **A** "Dosbarth Canol Uwch" - Uwch reolwyr, gweinyddol, proffesiynol fel Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Cwmni, Uwch Was Sifil, Meddyg, Barnwr, Bargyfreithiwr, Cyfrifydd Gweithredol
- **B** "Dosbarth Canol" - Uwch reolwyr a rheolwyr canol, gweinyddol, proffesiynol fel Athro Ysgol Uwchradd, Llyfrgellydd, Rhaglennydd Cyfrifiadurol, Swyddog Prawf, Gweithiwr Cymdeithasol
- **C1** "Dosbarth Canol Isaf" - Rheolwr goruchwylio, clerigol, is fel Clerigol/Gweithwyr Swyddfa, Goruchwyliwr Llawr Siop, Clerc y Banc, Gwerthwr, Myfyriwr

**C2DEau** - gweithwyr llaw medrus, lled-fedrus ac anfedrus a phobl nad ydynt yn gweithio

- **C2** "Dosbarth Gweithio Medrus" - Gweithwyr llaw medrus fel Trydanwr, Saer Coed, Ymladdwr Tân, Giaffer
- **D** "Dosbarth Gweithiol" - Gweithwyr llaw lled-fedrus ac anfedrus fel Gweithiwr Siop, Gweithiwr Llinell, Casglwr Sbwriel, Negesydd, Staff Bar
- **E** Y rhai sy'n dibynnu'n llwyr ar fudd-daliadau'r wladwriaeth gan gynnwys y di-waith tymor hir a phensiynwyr heb bensiynau preifat. Gweithwyr achlysurol.

## Atodiad 2: rhanbarthau

Diffiniadau Cyngor Celfyddydau Cymru o’r rhanbarthau yn yr adroddiad:

| Enw'r rhanbarth | Diffiniad |
|---|---|
| Y Gogledd | Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Môn, Gwynedd |
| Y De-orllewin | Powys, Ceredigion, Sir Gâr, Sir Benfro, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot |
| Canol y De | Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful |
| Y De-ddwyrain | Torfaen, Sir Fynwy, Casnewydd, Caerffili, Blaenau, Gwent |

## Atodiad 3: cwestiynau Arolwg 2023

**Cyngor Celfyddydau Cymru**
**Cwestiynau terfynol – Omnibws y Plant, 2023**

Cerdyn dangos
**1 Pa mor aml rydych chi'n mynd i bob gweithgarwch dwi'n ei ddarllen?**

Yn gyntaf, pa mor aml rydych chi'n:

Mynd i ddramâu

..... Sawl gwaith yr wythnos
..... Unwaith yr wythnos
..... 2 neu 3 gwaith y mis
..... Unwaith y mis
..... Unwaith bob 2-3 mis
..... 2 neu 3 gwaith y flwyddyn
..... Unwaith y flwyddyn
..... Yn llai aml
..... Byth

Ailadroddwch ar gyfer mynd i:

sioeau cerdd
opera
cyngherddau cerddoriaeth glasurol
cerddoriaeth fyw arall
perfformiadau dawns
orielau neu arddangosfeydd celf neu grefft
darlleniadau, adrodd storïau neu ddigwyddiadau llenyddol eraill
carnifalau a chelfyddydau'r stryd

--

Cerdyn dangos
**2 Pan aethoch chi i ddrama ddiwethaf,** (gofynnwch am bob gweithgarwch a fynychwyd o leiaf unwaith y flwyddyn yng nghwestiwn 1**) a oedd:**

wedi'i threfnu gan yr ysgol/coleg yn ystod amser ysgol?
wedi'i threfnu gan yr ysgol/coleg ond y tu allan i oriau ysgol?
yn eich amser eich hun (heb ei threfnu gan yr ysgol/coleg)?

Ailadroddwch ar gyfer yr holl weithgarwch a fynychir unwaith y flwyddyn neu'n amlach

--

Cerdyn dangos
**3 Pa mor aml rydych chi'n cyfranogi o bob gweithgarwch dwi'n ei ddarllen?**

Yn gyntaf, pa mor aml rydych chi'n

cyfranogi o weithgarwch cerddorol (fel canu neu chwarae offeryn)?

..... Sawl gwaith yr wythnos
..... Unwaith yr wythnos
..... 2 neu 3 gwaith y mis
..... Unwaith y mis
..... Unwaith bob 2-3 mis
..... 2 neu 3 gwaith y flwyddyn
..... Unwaith y flwyddyn
..... Yn llai aml
..... Byth

Ailadroddwch ar gyfer cyfranogi o:

drama neu weithgarwch theatrig (fel actio, cyfarwyddo, gwaith technegol)
gweithgarwch dawns (nid disgo/clybio)
ffilm a fideo neu ffotograffiaeth
y celfyddydau gweledol neu grefftau (fel paentio, tecstilau)
y celfyddydau digidol (creu a gwneud gan ddefnyddio technoleg ddigidol fel uwchlwytho, creu neu ailgymysgu cynnwys sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau ar YouTube, Flickr ac ati)
ysgrifennu creadigol (fel barddoniaeth neu straeon)

--

Cerdyn dangos
**4 Pan wnaethoch chi gyfranogi ddiwethaf o weithgarwch cerddorol,** (gofynnwch am bob gweithgarwch y cyfranogwyd ohono o leiaf unwaith y flwyddyn yng nghwestiwn 3) **a oedd:**

yn yr ysgol/coleg yn ystod amser ysgol?
yn yr ysgol/coleg ond y tu allan i'r ysgol?
yn eich amser eich hun (nid yn yr ysgol/coleg)?

Ailadroddwch ar gyfer yr holl weithgarwch y cyfranogwyd ohono unwaith y flwyddyn neu'n amlach